Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Aberporth
# Rhiw y Plas
# Aberporth
# Cardigan
# SA43 2DA

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2020

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Aberporth

Lleolir Ysgol Gynradd Gymunedol Aberporth ym mhentref glan môr Aberporth, sydd ychydig filltiroedd i'r gogledd o dref Aberteifi yn awdurdod lleol Sir Ceredigion. Mae 152 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 5 oed meithrin amser llawn ac 17 sy'n mynychu Canolfan y Don, sy'n uned ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig dwys. Cymraeg yw prif gyfrwng bywyd a gwaith yr ysgol a chyflwynir Saesneg i ddisgyblion o Flwyddyn 3 ymlaen.

Tros dreigl tair blynedd, mae ychydig o dan 17% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn ychydig yn is na'r ganran genedlaethol sy'n 18%. Tua 12% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig neu sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 32% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig. Mae gan ychydig iawn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ganran sydd ag anghenion addysgol arbennig yn uwch na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf gan Estyn ym mis Mai 2013 a phenodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym mis Medi 2019.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae ethos gofalgar a gweithgar yn treiddio trwy holl weithgareddau'r ysgol hon. Mae'r gymuned addysgu ofalgar, fyrlymus a chynhwysol yn sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel yn ei mynychu. Mae'r pennaeth, yr athrawon a'r cynorthwywyr yn annog pob un disgybl, gan gynnwys y rheini yng Nghanolfan y Don, i ymroi i'w tasgau ac i lwyddo yn eu dysgu. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ac mae bron pob un yn y prif lif yn datblygu medrau llafar Cymraeg graenus iawn, beth bynnag yw eu cefnir ieithyddol.

Mae bron pob un disgybl yn ymddwyn yn dda iawn. Maent yn gwrtais a pharchus tuag at ei gilydd a thuag at oedolion ac maent yn rhyngweithio'n hynod effeithiol. Mae'r ffordd hollol naturiol y mae disgyblion Canolfan y Don yn integreiddio â disgyblion y prif lif yn atgyfnerthu'r egwyddor gref o gynhwysiant sy'n bodoli yn yr ysgol. Mae bron pob un yn hapus ac yn falch o berthyn i'w chymuned a'i theulu.

Mae gan y pennaeth a'r staff weledigaeth glir sy'n seiliedig ar gefnogi lles y disgyblion a sicrhau eu bod yn unigolion uchelgeisiol sy'n falch o'u cymuned a'u Cymreictod.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Codi safonau darllen disgyblion cyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau bod athrawon cyfnod allweddol 2 yn darparu digon o gyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso’u medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn nosbarth isaf y cyfnod sylfaen yn meddu ar fedrau llythrennedd a rhifedd sy'n is na'r disgwyl o ystyried eu hoed. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da o'u man cychwyn tra yn yr ysgol. Ychydig sy'n dechrau'r ysgol yn siarad Cymraeg, ond mae bron pob un yn caffael yr iaith yn gyflym iawn. Mae hyn yn un o brif gryfderau'r ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim, a'r rheini sydd ag anghenion addysgol arbennig, yn y brif lif ac yng Nghanolfan y Don yn gwneud cynnydd sydd o leiaf yn dda.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau siarad a gwrando. Maent yn ymuno'n frwdfrydig i berfformio rhigymau a chaneuon gyda'u cyfoedion. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd ac yn siarad Cymraeg yn rhugl a naturiol iawn gan ddefnyddio geirfa eang a chystrawen gywir wrth drafod eu profiadau.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn cynnal sgyrsiau estynedig gan siarad â lefel dda o gywirdeb. Maent yn barod i gyfrannu at drafodaethau dosbarth yn hyderus a deallus. Erbyn Blwyddyn 6, mae medrau llafar Saesneg rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ac mae llawer yn trawsieithu'n hyderus a naturiol iawn. Mae bron pob un disgybl yng Nghanolfan y Don yn gwneud cynnydd da wrth gyfathrebu mewn ffyrdd sy'n addas iddyn nhw.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf yn datblygu'n dda. Yn fuan iawn, mae disgyblion yn y dosbarth meithrin a derbyn yn adnabod llythrennau wrth ddefnyddio'r wyddor ystumiau ac, erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl gan ddefnyddio strategaethau addas i adeiladu geiriau anghyfarwydd.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn meddu ar fedrau darllen priodol yn y ddwy iaith. Gwnânt ddefnydd addas o'u medrau i gywain gwybodaeth berthnasol o lyfrau a thestunau amrywiol yn ogystal â chwblhau tasgau darllen a deall yn hyderus. Fodd bynnag, nid yw'r lleiafrif yn darllen ystod digon eang o lyfrau yn rheolaidd na gyda mynegiant da. Mae hyn yn llesteirio'u cynnydd a'u boddhad mewn darllen.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu i ystod o bwrpasau. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu erthygl ddiddorol i bapur newydd yn seiliedig ar stori 'Sbwriel Sbango'. Ar y cyfan, mae ansawdd sillafu ac atalnodi llawer ohonynt yn dda ac mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau ysgrifennu ar y lefel briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn creu taflen ffeithiol am blaned o'u dewis nhw wrth astudio thema yn seiliedig ar y gofod.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn briodol yn y ddwy iaith. Mae ganddynt ymwybyddiaeth briodol o nodweddion gwahanol ffurfiau, ac maent yn ysgrifennu i bwrpas mewn amrywiol arddulliau. Er enghraifft, maent yn llythyru'r Aelod Seneddol lleol i gwyno am sefyllfa'r drafnidiaeth y tu allan i'r ysgol. Fodd bynnag, prin yw'r enghreifftiau lle maent yn ysgrifennu'n estynedig mewn amrywiol gyfryngau.

Mae medrau mathemategol disgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu'n dda. Yn y dosbarth meithrin a derbyn, mae'r rhan fwyaf yn adnabod rhifau hyd at o leiaf 20 ac yn cyfrif yn lled hyderus ymlaen ac yn ôl. Maent yn datblygu eu medrau ymhellach ym Mlwyddyn 1 a 2 ac yn cymhwyso'u dealltwriaeth o fathemateg yn hyderus mewn gwahanol gyd-destunau. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 yn dadansoddi data ar hoff aderyn eu cyfoedion yn hyderus, gan arddangos eu canfyddiadau yn gywir ar ffurf graff.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau mathemategol ond mae ychydig yn arddangos diffyg hyder yn eu medrau rhifyddeg pen. Fodd bynnag, mae arweinwyr wedi adnabod y diffyg hwn ac wedi datblygu rhaglen waith i fynd i'r afael ag ef. Mae hwnnw'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn lled hyderus mewn meysydd eraill y cwricwlwm, pan gânt y cyfle i wneud hynny. Er enghraifft, mewn arbrofion gwyddonol, mae disgyblion Blwyddyn 5 a 6 yn mesur arwynebedd gwahanol barasiwtiau, yn amseru pob un yn syrthio i'r llawr wedi ei ollwng o uchder penodol, yn arddangos y canlyniadau ar ffurf graff a dod i gasgliad yn lled gywir.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn datblygu ystod werthfawr o fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus. Mae llawer yn recordio'u hunain yn siarad ar feicroffon, a gwrando 'nôl ar eu lleisiau, sy'n cyfoethogi'r cyfleoedd iddynt gymhwyso'u medrau llafar o oed cynnar. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn rheoli rhaglenni celf yn effeithiol i greu lluniau i gyd-fynd â'u profiadau dysgu, er enghraifft wrth lunio anifeiliaid y fferm yn dilyn taith addysgol i fferm leol. Mae bron pob un wedi manteisio ar y profiad o gynnal cynhadledd fideo i gyfathrebu â theulu mewn gwlad arall i drafod dathliad crefyddol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn adeiladu'n briodol ar eu medrau TGCh blaenorol er mwyn cyfoethogi eu gwaith. Mae llawer yn gweithio mewn parau i greu cerddoriaeth syml, ac i ysgrifennu rap yn llwyddiannus, cyn ei recordio. Mae llawer yn datblygu medrau rhaglennu cynnar yn dda wrth gynllunio gêm gyfrifiadurol ac mae bron pob un yn dechrau defnyddio cronfa ddata yn llwyddiannus i gadw a threfnu gwybodaeth, er enghraifft wrth ddysgu am blanedau'r bydysawd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio ac yn datblygu eu medrau meddwl yn dda iawn. Maent yn defnyddio'u medrau yn rheolaidd i ddatrys problemau a chwblhau tasgau ymarferol a heriau ymchwiliol yn annibynnol a llwyddiannus.

### Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae bron pob un o'r disgyblion yn hapus yn yr ysgol ac yn falch o fod yn rhan o'i chymuned. Maent yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod at bwy i droi pan fydd ganddynt unrhyw bryder neu gonsyrn, gan fod yn hyderus y byddai'r person hwnnw yn eu helpu. Mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o degwch a goddefgarwch o eraill, ac maent yn hysbys iawn o'u hawliau fel plant. O oed cynnar, mae bron pob un yn deall pa fwyd a diod sy'n dda iddynt, ynghyd â phwysigrwydd gwneud ymarfer corff yn rheolaidd i gadw'n iach. Mae'r 'Dewiniaid Digidol' yn cymryd eu rôl o ddifri i sicrhau bod eu cyfoedion yn deall prif egwyddorion e-ddiogelwch yn drylwyr. O ganlyniad, mae gan bron pob un ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar lein.

Un o brif rinweddau'r ysgol yw ymddygiad da bron pob un disgybl. Maent yn gwrtais a pharchus tuag at ei gilydd a thuag at oedolion gan ryngweithio'n hynod effeithiol yn y dosbarthiadau ac yn yr ardaloedd allanol. Mae'r ffordd hollol naturiol y mae disgyblion Canolfan y Don yn integreiddio â disgyblion y prif lif yn hyfryd ac yn cadarnhau'r egwyddor gref o gynhwysiant sy'n bodoli yn yr ysgol.

Mae unigolion yn ymgymryd yn aeddfed â'u rolau arwain. Mae 'Criw y Porth' yn grŵp gweithgar sy'n gyfuniad synhwyrol o'r cyngor ysgol a'r cyngor eco. Maent yn rheoli eu cyfarfodydd yn lled annibynnol ac yn gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw ac sy'n cael dylanwad arnyn nhw a'u cyfoedion. Maent wedi mesur y tymheredd mewn gwahanol fannau yn yr ysgol ac, wedi dadansoddi'r data a sylweddoli bod y tymheredd mewn rhai mannau yn rhy oer, wedi cysylltu â swyddogion yr awdurdod lleol i gwyno. Mae'r sefyllfa bellach wedi gwella.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr hyderus ac annibynnol o oed ifanc iawn. Maent yn dewis eu gweithgareddau yn synhwyrol ac yn ymateb yn gadarnhaol i gyngor a chyfarwyddyd oedolion. Mae bron pob un o'r disgyblion yng Nghanolfan y Don yn ymateb yn dda i ganmoliaeth ac adborth llafar ac yn dangos brwdfrydedd naturiol at eu dysgu.

Mae bron pob un disgybl yn ymroi'n gydwybodol i'w tasgau ac maent yn barod iawn i roi tro ar weithgareddau sy'n newydd iddynt. Maent yn dangos diddordeb brwd yn eu gwaith, yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau i orffen eu tasgau o fewn amser penodol. Wrth wynebu anawsterau â'u tasgau, maent yn barod iawn i weithredu'r strategaeth 'tri cyn fi' cyn holi eu hathrawon am gymorth. Mae eu gwydnwch yn amlwg iawn wrth iddynt weithredu heriau'r prynhawn yng nghyfnod allweddol 2, lle maent yn dewis y gweithgareddau i fentro arnynt. Mae bron pob un yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd rheolaidd a gânt i gyfrannu at yr hyn maent yn ei ddysgu o fewn y themâu tymhorol ysgol gyfan. Mae hyn yn rhoi perchnogaeth dda iddynt o'u dysgu.

### Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Mae athrawon ym mhob dosbarth yn ennyn diddordeb disgyblion yn dda ac yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth i lefel addas wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Ar y cyfan, mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob disgybl, yn arbennig o safbwynt eu medrau llafar Cymraeg, sy'n amlwg wedi bod yn flaenoriaeth ers blynyddoedd lawer. Mae dosbarthiadau yn fannau hynod ysgogol a difyr lle gall y disgyblion ddysgu'n gynhyrchiol. Mae'r arddangosfeydd yn lliwgar ac yn rhoi bri ar waith disgyblion.

Mae gweithdrefnau cynllunio'r athrawon yn y brif lif ac yng Nghanolfan y Don yn drylwyr, ac yn sicrhau bod y gweithgareddau a ddarperir i ddisgyblion yn addas, yn ddiddorol ac yn adeiladu'n briodol ar eu dysgu blaenorol. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o ddulliau addysgu i herio a chynnal diddordeb y disgyblion, gan gynnwys y rheiny sy'n mynychu Canolfan y Don. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu.

Mae'r athrawon yn rhannu cyfarwyddiadau ac esboniadau yn glir gyda'r disgyblion. Maent yn defnyddio amrywiol dechnegau holi yn gelfydd i ymestyn a datblygu ymhellach eu hymatebion, a chael argraff gywir o'u dealltwriaeth. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn dda.

Mae'r athrawon a'r cynorthwywyr dysgu yn rheoli ymddygiad disgyblion yn effeithiol ac yn trin pob un ohonynt yn gyfartal. Mae'r berthynas waith gadarnhaol sy'n bodoli rhwng yr holl oedolion a disgyblion yn un o rinweddau nodedig yr ysgol.

Mae adborth llafar ac ysgrifenedig yr athrawon yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Maent yn canmol ymdrech dda ac yn annog y disgyblion i wella'u gwaith yn gyson. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn llwyddo a gwella'u gwaith. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion asesu eu perfformiad eu hunain. Mae'r arfer hon yn datblygu'n dda iawn ac yn annog disgyblion i ganolbwyntio'n dda ar y meini prawf llwyddiant. Fodd bynnag, nid yw arfer yr ysgol o annog disgyblion i werthuso perfformiad eu cyfoedion wedi datblygu cystal.

Mae'r athrawon yn cynllunio gwersi hwyliog i ddisgyblion, sy'n sbarduno a chyfoethogi eu profiadau yn dda. Mae'r cynlluniau yn fanwl ac wedi eu seilio ar themâu ysgol-gyfan i sicrhau bod ystod briodol a chydbwysedd da ar draws ystod o bynciau a meysydd y cwricwlwm. Mae'r ffordd hon o gynllunio yn sicrhau cysondeb wrth i ddisgyblion drosglwyddo o Ganolfan y Don i'r brif lif. Mae cyfleoedd da i ddisgyblion gynnig syniadau i'r cynlluniau hyn ac maent wedi eu strwythuro'n briodol i gyd-fynd â phrif egwyddorion y cwricwlwm newydd. O ganlyniad, mae gan y disgyblion berchnogaeth dda o'u dysgu, sy'n annog eu brwdfrydedd a'u diddordeb ym mhob agwedd o waith yr ysgol.

Mae'r cwricwlwm yn bodloni gofynion rhan fwyaf y disgyblion yn dda ac yn cael ei addasu'n gelfydd i ymateb i anghenion unigolion a grwpiau penodol. Mae rhaglenni ymyrraeth, sy'n cael eu harwain gan staff profiadol, yn cael effaith gadarnhaol ar safonau llythrennedd a rhifedd bron pob un disgybl.

Mae'r athrawon yn aml yn defnyddio'r ardal leol yn llwyddiannus fel sbardun diddorol i nifer o weithgareddau. Er enghraifft, mae'r thema 'Y Dydd Iau Mawr', sy'n gysylltiedig â dathliad Ffair Haf blynyddol Aberporth, yn ehangu dealltwriaeth disgyblion o ddathliadau traddodiadol lleol. Maent hefyd yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i gyfoethogi gwybodaeth disgyblion am Gymru. Ers cychwyn y flwyddyn academaidd hon, maent wedi sefydlu ardaloedd penodol i ddathlu Cymreictod a diwylliant Cymru. Er mwyn cyfoethogi eu gweithgareddau creadigol, maent yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion arbrofi â lliwiau i efelychu gwaith gan artist lleol yn seiliedig ar Fenywod Cymreig, er enghraifft.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi'u gwreiddio'n gadarn yn yr ysgol, gyda chydbwysedd effeithiol iawn yn bodoli rhwng gweithgareddau sy'n cael eu hwyluso'n llwyddiannus gan staff, a heriau annibynnol i'r disgyblion. Ar draws yr ysgol, gwneir defnydd llwyddiannus iawn o ardaloedd ysgogol a diddorol sy'n annog brwdfrydedd ac annibyniaeth y disgyblion. Er enghraifft, mae'r 'Octopod' yn y cyfnod sylfaen yn cyfoethogi gweithgareddau creadigol a'r 'Cwtsh nos' yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddefnyddio'u synhwyrau yn naturiol. Defnyddir ardaloedd allanol amrywiol a chyffrous i gyfoethogi profiadau disgyblion y cyfnod sylfaen a Chanolfan y Don yn gyson ac effeithiol iawn. Yn ddiweddar, mae staff wedi datblygu egwyddorion y cyfnod sylfaen yn llwyddiannus trwy gyfnod allweddol 2 yn ogystal, trwy gyflwyno heriau amrywiol i ddisgyblion eu datrys yn annibynnol.

Mae staff wedi diwygio'u cynlluniau gwaith yn ddiweddar er mwyn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn drefnus a systematig. Er bod y cynlluniau hyn yn drylwyr ac yn sicrhau eu bod yn cynnwys profiadau dysgu cyfoethog a chreadigol i ddisgyblion, mae'n rhy gynnar i weld eu heffaith hir dymor ar safonau. Ar hyn o bryd, mae diffyg cyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso digon eu medrau rhifedd ac ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned addysgu ofalgar, fyrlymus a chynhwysol, sy'n sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hapus a diogel. Mae staff yn annog pob un disgybl, gan gynnwys y rheini yng Nghanolfan y Don, i ymroi i'w gweithgareddau ac i lwyddo yn eu dysgu. Rhoddir sylw penodol ar feithrin agweddau cadarnhaol ym mhob un o'r disgyblion tuag at eu dysgu a thuag at fyw yn iach. Mae gan yr ysgol weithdrefnau priodol ar gyfer annog disgyblion i fwyta ac yfed yn iach ac mae ei threfniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Rhoddir cyfleoedd eang i ddisgyblion wneud penderfyniadau am fywyd a gwaith yr ysgol. Mae aelodau 'Criw'r Porth', y Llysgenhadon Efydd a Gwych, y 'Dewiniaid Digidol', a'r 'Cymry Cŵl' yn chwarae rôl bwysig iawn o fewn yr ysgol. Maent yn dylanwadu ar eu cyfoedion i wella'u hagweddau tuag at ystod o faterion cyfoes. Mae'r rhain yn cynnwys lleihau'r defnydd o blastig, annog eu cyfoedion i fyw'n iach a gwneud y defnydd gorau o'r Gymraeg yn eu bywyd pob dydd. Mae'r ysgol yn codi ymwybyddiaeth disgyblion o'u hawliau yn effeithiol iawn. Mae'r agwedd hon yn amlwg yn ei holl weithgareddau ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar hyder y dyfalbarhad y disgyblion.

Datblygir elfennau ysbrydol, moesol, personol a chymdeithasol y disgyblion yn llwyddiannus trwy gyfrwng gwersi penodol a sesiynau cyd-addoli, lle y cânt gyfleoedd penodol i fyfyrio a meddwl am eraill. Mae darpariaeth Canolfan y Don tuag at ddatblygiad personol y disgyblion sy'n ei mynychu yn cael effaith gadarnhaol ar eu cwrteisi a'r ffordd y maent yn cydweithio ag eraill. Trwy gyfrwng ystod eang o brofiadau cwricwlaidd, mae'r ysgol yn datblygu medrau diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus, yn arbennig eu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymru.

Hyrwyddir cydraddoldeb ac amrywiaeth yn hynod effeithiol. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn gwerthfawrogi eraill am yr hyn yr ydynt ac nid ydynt yn gwahaniaethu ar unrhyw sail. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar integreiddio disgyblion Canolfan y Don â'r rheini yn y prif lif, lle bynnag mae'n briodol i wneud hynny. O ganlyniad, mae'r holl ddisgyblion yn teimlo'n rhan greiddiol o 'deulu Ysgol Aberporth'.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i olrhain cynnydd a lles unigolion a grwpiau o ddisgyblion. Mae arweinwyr ac aelodau eraill y staff yn gwneud defnydd cyson a llwyddiannus o ddeilliannau'r gweithdrefnau hyn i sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd priodol ac i adnabod unrhyw batrymau neu ddiffygion yn y ddarpariaeth. Wedi adnabod unrhyw ddiffygion, mae staff yn cynllunio gweithgareddau neu ymyraethau penodol i fynd i'r afael â nhw. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, gan gynnwys y rheini sy'n mynychu Canolfan y Don, yn effeithiol ac yn cyfrannu'n dda, dros amser, at wella'u deilliannau a'u cyraeddiadau.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus i gefnogi disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd i siarad am eu teimladau os ydynt am wneud hynny, sy'n eu cynorthwyo i fod yn barod i ddysgu.

Mae partneriaeth yr ysgol â rhieni yn gadarn. Mae staff yn cyfathrebu â nhw yn gyson trwy amrywiol ffyrdd, ac yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau perthnasol. Trefnir sesiynau yn achlysurol i godi ymwybyddiaeth rhieni o sut y gallant helpu eu plant gartref. Er enghraifft, trefnwyd gwersi Cymraeg a sesiynau i'w helpu i annog ymddygiad cadarnhaol eu plant. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi hyn yn fawr. Mae rhieni, yn eu tro, yn trefnu gweithgareddau yn rheolaidd i godi symiau sylweddol o arian i gefnogi'r ysgol.

Mae staff yr ysgol, a'r meithrinfeydd sy'n ei bwydo, yn cydweithio'n llwyddiannus i drefnu amrywiol weithgareddau er mwyn i'r plant newydd ymgyfarwyddo â'r ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym wrth gychwyn yn yr ysgol am y tro cyntaf, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu parodrwydd i ddysgu.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae'r pennaeth, a benodwyd ym mis Medi 2019, wedi gosod cyfeiriad strategol clir a chadarn ar gyfer yr ysgol. Mae wedi rhannu ei weledigaeth yn llwyddiannus gyda'r staff, y llywodraethwyr, y disgyblion a'r rhieni. Mae'r weledigaeth hon yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar gefnogi lles y disgyblion a sicrhau bod ganddynt y medrau sylfaenol i'w gwneud yn unigolion uchelgeisiol sy'n falch o'u cymuned a'u Cymreictod. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel ohono'i hun, o'i staff a'r disgyblion. O ganlyniad, mae ethos gofalgar a gweithgar yn treiddio trwy holl weithgareddau'r ysgol.

Cefnogir y pennaeth yn effeithiol gan y pennaeth cynorthwyol, yr uwch arweinwyr eraill a'r holl staff. Mae ymdeimlad cryf o waith tîm yn bodoli o fewn yr ysgol. Mae'r staff cyfan yn barod iawn i ymgymryd â syniadau newydd a ffyrdd gwahanol o addysgu, sy'n cynnwys darparu heriau penodol ac annibynnol i ddisgyblion cyfnod allweddol 2. O ganlyniad, mae disgyblion yn defnyddio'r medrau a ddysgwyd yn flaenorol i ddatrys problemau a chwblhau gweithgareddau annibynnol mewn cyd-destunau eraill.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr a chadarn sy'n ystyried tystiolaeth uniongyrchol a barn y staff yn briodol i werthuso'i pherfformiad yn fanwl. Fodd bynnag, nid ydynt yn ystyried barn disgyblion a rhieni ddigon yn y broses. Mae'r adroddiadau sy'n deillio o'r gweithdrefnau hyn yn arfarnol, ac wedi rhoi darlun clir i'r pennaeth newydd o gryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen ei wella. Wedi distyllu'r prif negeseuon o'r ystod eang o ffynonellau gwerthuso hyn, mae'r pennaeth wedi ffurfio dull cyson i fesur cynnydd mewn agweddau penodol. Mae hyn yn sail i'r cynllun datblygu ac yn ei alluogi i dynnu sylw'r staff a'r llywodraethwyr at y materion penodol sydd angen eu gwella, ynghyd â gwerthuso'r cynnydd yn eu herbyn dros amser.

Mae'r amcanion gwella a nodir yn y cynllun datblygu yn deillio'n uniongyrchol o'r weithdrefn hunanwerthuso. Maent yn rhoi ffocws clir ar godi safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion yn ogystal â datblygu cwricwlwm a fydd yn hybu eu hannibyniaeth. Mae'r ysgol wedi cychwyn rhoi pwyslais ar ddysgu annibynnol, sy'n sail i'r cwricwlwm newydd i Gymru. Mae hyn eisoes yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau dysgu annibynnol disgyblion wrth iddynt ymateb i'r gwahanol heriau.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol ac yn ei hadnabod yn dda.  Maent yn ymweld â’r ysgol yn rheolaidd ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'i harferion a'r heriau sy’n wynebu staff a disgyblion o ddydd i ddydd.  Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a’r meysydd i'w gwella.  Maent yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o amrywiaeth o weithgareddau uniongyrchol, fel teithiau dysgu, arsylwi ar yr addysgu, siarad â dysgwyr a chraffu ar lyfrau, i herio’r ysgol yn briodol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn i reoli perfformiad yr athrawon a’r cynorthwywyr, sy’n seiliedig ar eu hanghenion dysgu proffesiynol unigol a blaenoriaethau gwella’r ysgol.  Mae arweinwyr yn cefnogi anghenion dysgu proffesiynol y staff yn dda iawn.  O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf wedi ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi arfer dda ac wedi croesawu athrawon o ysgolion eraill i weld sut  maen nhw wedi datblygu dulliau newydd o addysgu ffoneg, er enghraifft.  Mae hyfforddiant effeithiol ar gyfer staff Canolfan Y Don yn llwyddo i gryfhau ac ehangu eu gwybodaeth am sut i drin anghenion addysgol arbennig y disgyblion yn y brif lif yn ogystal ag yn yr uned honno.

Mae arweinwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol yn effeithiol, ac yn gwneud penderfyniadau gwariant sy’n cysylltu’n uniongyrchol â’r blaenoriaethau gwella.  At ei gilydd, mae arweinwyr yn darparu adnoddau o ansawdd da, sy’n diwallu anghenion disgyblion yn synhwyrol.  Maent yn rheoli ardaloedd allanol y cyfnod sylfaen yn effeithiol i wella profiadau dysgu disgyblion.  Mae'r ysgol yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn synhwyrol i ddarparu cymorth ychwanegol i gynorthwyo dysgwyr bregus i ddysgu, ac i sicrhau bod ganddynt bob cyfle i fanteisio ar yr holl brofiadau a ddarperir gan yr ysgol.  Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol iawn ar eu cyflawniad a’u cynnydd.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 14/05/2020